Bydd aelodaeth yn cychwyn cyn gynted ag y bydd y ffurflen aelodaeth bapur/ar lein ar taliad blynyddol cyntaf wedi dod i law

Bydd rhestr o'r Aelodau yn cael ei gadw a'i diweddarau gan yr Ysgrifennydd Aelodaeth.

Gwahoddir pob Aelod i ymuno â'r grŵp Facebook 'cyfrinachol' – Newcastle Emlyn Traders Group / Masnachwyr Castell Newydd Emlyn. (Bydd methu â thalu neu adnewyddu aelodaeth yn arwain at gael eich tynnu o'r grŵp Facebook 'cyfrinachol'.)

Fel Aelod o Fasnachwyr Castell Newydd Emlyn gall perchennog y busnes neu'r dirprwy enwebedig (gweithiwr) fynychu'r CCB, Cyfarfod Cyffredinol, Cyfarfod Cyffredinol Arbennig a Chyfarfod Prosiect neu Weithgaredd Penodol. Fodd bynnag, os oes gan fusnes fwy nag un cynrychiolydd mewn unrhyw gyfarfod, dim ond un bleidlais fydd ganddo.

Mae gan bob aelod cyfredol hawl i gael eu rhestru am ddim ar wefan Visit Newcastle Emlyn. (Bydd methu â thalu neu adnewyddu aelodaeth yn arwain at dynnu oddi ar y wefan.)

Mae'r holl aelodau cyfredol sydd wedi'u lleoli yng nghanol tref Newcastle Emlyn yn cymryd rhan yn awtomatig yn y cynllun talebau tref a chânt eu rhestru ar dudalen we talebau Visit Newcastle Emlyn www.visitnewcastleemlyn.co.uk/explore/town-voucher-scheme Fodd bynnag, nid yw rhai aelodau cyfredol yn gwerthu cynnyrch ac felly ni allant gymryd rhan a derbyn talebau. e.e. Meysydd Chwarae Brenin Siôr V.

3.2 Aelodaeth Gysylltiol Heb Bleidlais

Mae aelodaeth gyswllt di-bleidlais Grŵp Masnachwyr Castell Newydd Emlyn yn agored i lety hunanarlwyo a gwely a brecwast o fewn radiws 5 milltir i Gastell Newydd Emlyn.

Bydd aelodaeth gyswllt heb bleidlais yn ôl disgrisiwn y Cadeirydd a'r Ysgrifennydd Aelodaeth, neu benderfyniad mwyafrif y pwyllgor.

Bydd aelodaeth gyswllt heb bleidlais yn flynyddol a bydd yn rhedeg rhwng 1 Ebrill a 31 Mawrth bob blwyddyn.

Bydd yna ffi blynyddol ar gyfer aelodaeth gyswllt heb bleidlais, a gytunir yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (CCB) a bydd yn daladwy gan yr holl aelodau cyswllt cyfredol nad ydynt yn pleidleisio.

Bydd aelodaeth gyswllt heb bleidlais yn cychwyn cyn gynted ag y bydd y ffurflen aelodaeth / ffurflen ar-lein a'r ffi flynyddol wedi dod i law.

Bydd rhestr o'r aelodau cyswllt cyfredol heb bleidlais yn cael ei chadw a'i diweddarau gan yr Ysgrifennydd Aelodaeth.

Gwahoddir yr holl aelodau cyswllt di-bleidlais cyfredol i ymuno â'r grŵp Facebook 'cyfrinachol' - Grŵp Masnachwyr Castell Newydd Emlyn. (Bydd methu â thalu neu adnewyddu aelodaeth yn arwain at gael eich tynnu o'r grŵp Facebook 'cyfrinachol'.)

Fel aelod cyswllt cyfredol di-bleidlais o Grŵp Masnachwyr Castell Newydd Emlyn gall perchennog y busnes neu'r dirprwy (gweithiwr) enwebedig fynychu'r CCB, Cyfarfod Cyffredinol, Cyfarfod Cyffredinol Arbennig a Chyfarfod Prosiect neu Weithgaredd Penodol. Fodd bynnag, nid oes ganddynt hawl i bleidleisio, ond gallant ddweud eu dweud yn y cyfarfodydd hyn.

Mae gan bob aelod cyswllt cyfredol di-bleidlais hawl i restru eu manylion am ddim ar wefan Visit Newcastle Emlyn. (Bydd methu â thalu neu adnewyddu aelodaeth yn arwain at dynnu oddi ar y wefan.)

Rhaid i bob aelod cyswllt di-bleidlais:

- Hyrwyddo Castell Newydd Emlyn yn weithredol ac yn rheolaidd i'w gwsteion trwy eu tudalennau cyfryngau cymdeithasol a'u gwefan os oes ganddynt un.
 - Wrth bostio, rhaid cynnwys dolen gwefan Visit Newcastle Emlyn www.visitnewcastleemlyn.co.uk.
 - Hoffi a rhannu tudalen Facebook Visit Newcastle Emlyn sef <https://m.facebook.com/VisitNewcastleEmlyn>
 - Hoffi a rhannu tudalen Facebook Newcastle Emlyn & District What's On Board, sef www.facebook.com/groups/NewcastleEmlynandDistrictCommunityWhatsOnBoard

Sylwch: Os yw aelod llawn cyfredol yn cwyno nad yw aelod cyswllt di-bleidlais yn hyrwyddo Castell Newydd Emlyn yn weithredol ac yn rheolaidd gellir terfynu ei aelodaeth.

- Arddangos llenyddiaeth Grŵp Masnachwyr Castell Newydd Emlyn yn eu llety hunanarlwyo. e.e. Poster am y talebau tref.
- Hysbysebu y gellir prynu talebau tref trwy gydol y flwyddyn o Tivy Hall, Caffi Emlyn a Chanolfan Arddio Trefhedyn, ar-lein ar www.visitnewcastleemlyn.co.uk neu trwy ffonio 07854 777784.
- Rhannu rhestr lawn o gyfranogwyr talebau â'u gwsteion sydd ar gael ar www.visitnewcastleemlyn.co.uk/explore/town-voucher-scheme

3.3 Peidio â bod yn Aelod / Aelodaeth Gysylltiol Heb Bleidlais

- Gall aelodau ymddiswyddo ar unrhyw adeg yn ysgrifenedig i'r Ysgrifennydd Aelodaeth neu'r pwyllgor.
- Os yw Aelod yn methu â thalu'r ffi aelodaeth flynyddol, bernir bod yr Aelod wedi ymddiswyddo. (Fodd bynnag, bydd yr Ysgrifennydd Aelodaeth neu aelod o'r pwyllgor yn cysylltu ag unrhyw Aelod sy'n methu â thalu ei ffi aelodaeth ac yn cael cyfle i dalu'r ffi aelodaeth.)
- Gall aelodau cyfredol sy'n ymddiswyddo fynychu cyfarfodydd cyffredinol blynyddol grŵp masnachwyr Castell Newydd Emlyn, ond ni allant fynychu unrhyw gyfarfod arall. Hefyd, gan nad ydynt yn aelod ni allant bleidleisio yn y cyfarfod cyffredinol blynyddol
- Bydd aelodau cyfredol sy'n ymddiswyddo yn cael eu tynnu o grŵp Facebook 'cyfrinachol' Masnachwyr Castell Newydd Emlyn ac o wefan Visit Newcastle Emlyn.
- Bydd unrhyw Aelod sy'n dwyn anfri ar Fasnachwyr Castell Newydd Emlyn neu'n gwrthod cydymffurfio â'r cyfansoddiad yn cael eu diarddel trwy bleidlais o fwyafrif o ddwy ran o dair o'r Swyddogion etholedig. (Bydd gan unrhyw Aelod o'r fath yr hawl i apelio cyn pen 28 diwrnod ar ôl ei ddiarddel. Bydd yr apêl yn cael ei glywed mewn Cyfarfod Cyffredinol Arbennig a elwir at y diben hwnnw.)

3.4 Ymddygiad

- Ni chaniateir unrhyw ymddygiad tramgwyddus, gan gynnwys sylwadau hiliol, rhywiaethol neu ymfflamychol. P'un a yw hyn yn digwydd yn bersonol mewn cyfarfodydd neu trwy'r cyfryngau cymdeithasol.
- Gellir gofyn i unrhyw un sy'n ymddwyn mewn ffordd dramgwyddus neu'n torri'r polisi cyfle cyfartal (Adran 4 isod) beidio â mynychu cyfarfodydd pellach ac ymddiswyddo o'r grŵp os na roddir ymddiheuriad ysgrifenedig neu os ailadroddir yr ymddygiad.
- Bydd gan yr unigolyn dan sylw yr hawl i apelio (cyn pen 14 diwrnod ar ôl y digwyddiad i'r Ysgrifennydd Aelodaeth) a chael ei glywed gan y Cadeirydd ac un Swyddog Cefnogi arall neu Aelod o'r Pwyllgor, cyn i'r penderfyniad terfynol gael ei wneud ganddynt.

4. Cyfle Cyfartal

Ni fydd Masnachwyr Castell Newydd Emlyn yn gwahaniaethu ar sail rhyw, hil, lliw, tarddiad ethnig na chenedl, rhywioldeb, anabledd, cred grefyddol na gwleidyddol, statws priodasol nac oedran.

5. Pwyllgor

5.1 Aelodau Pwyllgor Etholedig

Bydd busnes cyffredinol Grŵp Masnachwyr Castell Newydd Emlyn yn cael ei gynnal gan y Pwyllgor etholedig.

Bydd y pwyllgor etholedig yn cynnwys hyd at NAW (9) o Aelodau Pwyllgor, yn cynnwys PUMP (5) swyddog etholedig (Cadeirydd, Is-Gadeirydd, Ysgrifennydd Aelodaeth, Trysorydd a Swyddog Arbennig) a hyd at BEDWAR (4) aelod cyfredol sy'n cael eu hethol a'u penodi bob yn ail flwyddyn yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Nodiadau:

- Gellir cyfethol hyd at DDAU (2) o Aelodau Pwyllgor ychwanegol i'r Pwyllgor yn ôl disgrisiwn Aelodau etholedig y Pwyllgor.
- Os oes angen, gall un person ymgymryd â mwy nag un rôl swyddog etholedig. (Ac eithrio rôl y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd.)

Gall unrhyw aelod cyfredol ddod yn Aelod o'r Pwyllgor, ar yr amod eu bod o leiaf 18 oed, o feddwl cadarn, nad yw wedi'i gael yn euog o drosedd sy'n ymwneud â lladrad neu anonestrwydd, nad yw'n fethdalwr (neu gyfwerth cyfreithiol), nad yw'n cael ei wahardd rhag bod yn ymddiriedolwr neu gyfarwyddwr cwmni neu wedi'i gofnodi ar y gofrestr Steel And Be Banned (SABB) a ddelir gan Heddlu Dyfed-Powys.

Gellir enwebu Aelodau'r Pwyllgor i'r Ysgrifennydd Aelodaeth cyn y CCB, neu yn y cyfarfod.

Ar ôl i enwebiadau agored gael eu gwneud yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, mae pleidleisio ac eilio ar gyfer ethol Aelodau'r Pwyllgor yn digwydd.

Cofnodir enwau Aelodau'r Pwyllgor ar gofnodion y CCB, a rennir â holl Aelodau Grŵp Masnachwyr Castell Newydd Newydd trwy adran ffeiliau'r dudalen Facebook 'gyfrinachol' a chânt eu cyhoeddi hefyd mewn post cyffredinol ar y dudalen Facebook 'gyfrinachol'.

Mewn rhai achosion gall aelodau etholedig y pwyllgor wneud penderfyniadau, megis ychwanegu unigolyn at y cynllun SABB, newid enwadau talebau, ac ati. Fodd bynnag, dylid bod yn agored am unrhyw benderfyniadau a allai effeithio ar yr holl aelodau cyfredol er mwyn rhoi cyfle i bob aelod cyfredol ddweud eu dweud, a lle bo angen, pleidleisio ar benderfyniadau.

Bydd Aelodau'r Pwyllgor yn gwasanaethu tan ddiwedd eu tymor etholedig o ddwy flynedd ac yn gymwys i'w ailethol.

Os bydd Aelod o'r Pwyllgor yn sefyll i lawr yn ystod eu tymor etholedig, bydd rhywun arall yn cael eu hethol yn y cyfarfod cyffredinol nesaf (adran 6.4) neu gyfarfod cyffredinol arbennig (adran 6.5).

Bydd y Cadeirydd neu'r Ysgrifennydd yn cysylltu ag unrhyw Aelod o'r Pwyllgor sydd heb fynychu 3 cyfarfod yn olynol heb ymddiheuriad a gofynnir iddynt a ydynt yn dymuno ymddiswyddo.

Cofnodir enwau Aelodau'r Pwyllgor ar gofnodion y CCB, a rennir â holl Aelodau Grŵp Masnachwyr Newcastle Emlyn trwy adran ffeiliau tudalen Facebook 'gyfrinachol' a chânt eu cyhoeddi hefyd mewn post cyffredinol ar dudalen Facebook 'gyfrinachol'.

Mewn rhai achosion gall aelodau etholedig y pwyllgor wneud penderfyniadau, megis ychwanegu unigolyn at y cynllun SABB, newid enwadau talebau, ac ati. Fodd bynnag, dylid agor unrhyw benderfyniadau a allai effeithio ar yr holl aelodau cyfredol er mwyn darparu pob aelod cyfredol y cyfle i ddweud eu dweud, a lle bo angen, pleidleisio ar benderfyniadau.

5.2 Swyddogion Cefnogi

5.2.1 Cadeirydd

- Cadeirio'r cyfarfodydd e.e. CCB
- Gosod yr agenda ar gyfer cyfarfodydd e.e.. CCB.
- Cadw trefn mewn cyfarfodydd a sicrhau tegwch a chydraddoldeb yn y cyfarfod.
- Cymeradwyo cofnodion cyfarfodydd ffurfiol wedi iddynt eu hysgrifennu.
- Cynrychioli'r grŵp i'r cyhoedd ac ar swyddogaethau neu gyfarfodydd y gwahoddwyd y grŵp iddynt.
- Gweithredu fel llefarydd ar ran y grŵp pan fo angen.
- Dangos trwy esiampl bersonol bob amser.

5.2.2 Is-Gadeirydd

- Cefnogi'r Cadeirydd.
- Yn absenoldeb y Cadeirydd, dirprwyo'r Cadeirydd.
- Dangos trwy esiampl bersonol bob amser.

5.2.3 Ysgrifennydd Aelodaeth

- Paratoi'r agenda ar gyfer cyfarfodydd gan ymgynghori â'r Cadeirydd.
- Bod yn gyfrifol am gymryd cofnodion a dosbarthu cofnodion, ac ati.
- Ymdrin â gohebiaeth. e.e. ar gyfer cyfarfodydd.
- Casglu a chylchredeg unrhyw wybodaeth berthnasol i'r Aelodau. e.e. cofnodion cyfarfodydd.
- Ymateb i bob ymholiad gan aelodau newydd posibl mewn modd amserol.
- Cyhoeddi ac adolygu ffurflenni aelodaeth newydd gan Aelodau ac adnewyddu ymaelodaeth Aelodau.
- Os nad yw aelod yn talu trwy BACS yna casglu aelodaeth yn flynyddol gan Aelodau. (Bydd anfoneb neu dderbynneb ffi aelodaeth yn cael ei darparu ar gais.)
- Cadw cofnodion aelodaeth cyfoes.
- Cynhyrchu diweddariadau/adroddiadau statws aelodaeth ar gyfer y CCB.
- Symleiddio'r broses talu aelodaeth, lle bo modd. e.e. taliad debyd uniongyrchol blynyddol.

- Os yw'n briodol, awgrymu a threfnu cynigion aelodaeth newydd.
- Rhoi copi o'r cyfansoddiad i bob aelod.
- Rhoi copi o'r cyfansoddiad i bob 3ydd parti perthnasol os/pan yn berthnasol. (Adran 10.)
- Bod â phrif rôl weinyddol ar gyfer gwefan Visit Newcastle Emlyn ynghyd â datblygwr gwefan 3ydd parti.
- Bod yn gyfrifol (ynghyd â'r datblygwr gwefan 3ydd parti) bod gwybodaeth gyson a chydymffurfio ar y wefan.
- Bod yn gyfrifol am ychwanegu aelodau newydd a thynnu hen aelodau o wefan Visit Newcastle Emlyn.
- Cydlynu'r digwyddiadau grŵp a'r llenyddiaeth a gynhyrchwyd sy'n adlewyrchu ein datganiad dwyieithog. (Adran 1.1)
- Cydlynu'r dosbarthiad o newyddion a'r cyfleoedd i aelodau cyfredol trwy ein cylchlythyr, e-byst a'n gwefan sy'n cael ei ddiweddarau'n gyson.
- Yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd, gweithredu fel llefarydd y grŵp.
- Dangos trwy esiampl bersonol bob amser.

5.2.4 Trysorydd

- Goruchwylio materion ariannol y grŵp.
- Cyfrifoldeb dros gynnal cyfrifon priodol sy'n dangos yr holl arian a gesglir ac a delir gan y grŵp
- Cyfrifoldeb dros gyflwyno'r cyfrifon yn y CCB.
- Dangos trwy esiampl bersonol bob amser.

5.2.5 Rolau Swyddog Arbennig - Swyddog Cyfryngau Cymdeithasol/Cyhoeddusrwydd

- Rheoli gweithgareddau cyfryngau cymdeithasol. e.e. Facebook
- Â'r Prif rôl weinyddol ar gyfer y wefan a thudalennau'r cyfryngau cymdeithasol.
- Enwebu pobl ychwanegol i gael swyddi gweinyddol ar y cyfryngau cymdeithasol.
- Cyfrifoldeb dros wybodaeth/negeseuon cyson ac sy'n cydymffurfio ar y grŵp cyfryngau cymdeithasol
- Cyfrifoldeb bod negeseuon/gwybodaeth ar y grŵp cyfryngau cymdeithasol gan aelodau cyfredol yn cydymffurfio.
- Cyfrifoldeb dros ychwanegu neu ddiswyddo aelodau o grwpiau cyfryngau cymdeithasol, megis Facebook.
- Cydlynu'r digwyddiadau grŵp a'r llenyddiaeth a gynhyrchwyd sy'n adlewyrchu ein datganiad dwyieithog. (Adran 1.1)
- Cydlynu dyddiadau terfyn cyhoeddi fel bod aelodau cyfredol yn ymwybodol ohonynt.
- Cydlynu unrhyw gyfleoedd hyrwyddo ar gyfer y grŵp.
- Cydlynu hyrwyddo'r grŵp i'r cyhoedd.
- Cydlynu'r dosbarthiad o newyddion a'r cyfleoedd i aelodau cyfredol trwy ein cylchlythyr, e-byst neu negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol.

- Cydlynu cysylltiadau â'r cyfryngau lleol a darparu adroddiadau rheolaidd a datganiadau i'r wasg ar newyddion a chyfleoedd y grŵp.
- Yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd, gweithredu fel llefarydd y grŵp.
- Dangos trwy esiampl bersonol bob amser.

Nodiadau:

- Bydd rôl y Swyddog Cyhoeddusrwydd/Cyfryngau Cymdeithasol yn cael ei gymryd gan unrhyw aelod pwyllgor cyfredol a bydd y cyfrifoldebau yn cael eu rhannu gan o leiaf un aelod arall cyfredol o'r pwyllgor e.e. Ysgrifennydd Aelodaeth.
- Bydd y Swyddog Cyhoeddusrwydd/Cyfryngau Cymdeithasol ac o leiaf dau aelod arall cyfredol o'r pwyllgor yn weinyddwyr ar grwpiau cyfryngau cymdeithasol, fel Facebook.

5.2.6 Aelodau Pwyllgor ac Aelodau Pwyllgor Cyfetholedig

- Byddant yn cefnogi'r swyddogion cefnogi etholedig
- Byddant yn mynychu cyfarfodydd pwyllgor
- Dangos trwy esiampl bersonol bob amser.

6. Cyfarfodydd

Fel aelod llawn o Grŵp Masnachwyr Castell Newydd Emlyn gall perchennog y busnes a / neu ddirprwy enwebedig (gweithiwr) fynychu'r CCB, Cyfarfod Cyffredinol, Cyfarfod Cyffredinol Arbennig a Chyfarfod Prosiect neu Weithgaredd Penodol. Fodd bynnag, dim ond pleidlais sengl sydd ganddynt a gallant ddweud eu dweud yn y cyfarfodydd hyn.

Fel aelod cyswllt cyfredol di-bleidlais o Grŵp Masnachwyr Newcastle Emlyn gall perchennog y busnes a / neu'r dirprwy (gweithiwr) enwebedig fynychu'r CCB, Cyfarfod Cyffredinol, Cyfarfod Cyffredinol Arbennig a Chyfarfod Prosiect neu Weithgaredd Penodol. Fodd bynnag, nid oes ganddynt hawl i bleidleisio, ond gallant ddweud eu dweud yn y cyfarfodydd hyn.

6.1 Cworwm cyfarfodydd

Y cworwm ar gyfer cyfarfod cyffredinol blynyddol (adran 6.2) yw 10% o'r aelodaeth neu o leiaf 8 aelod.

Y cworwm ar gyfer 'cyfarfod cyffredinol' (adran 6.4) a 'cyfarfod cyffredinol arbennig' (adran 6.5) yw 10% o'r aelodaeth neu isafswm o 2 aelod pwyllgor etholedig a 4 aelod cyfredol.

Y cworwm ar gyfer ' cyfarfod prosiect neu weithgaredd penodol ' (adran 6.6) yw o leiaf 3 aelod.

Diffiniad o gworwm "y nifer lleiaf o Aelodau Cynulliad neu gymdeithas y mae'n rhaid iddynt fod yn bresennol yn unrhyw un o'i gyfarfodydd i wneud trafodaethau'r cyfarfod hwnnw'n ddilys".

6.2 Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol (CCB)

Rhaid i bresenoldeb y cyfarfod blynyddol fodloni'r gofynion cworwm a nodir yn adran 6.1 uchod.

Cynhelir cyfarfod cyffredinol blynyddol o fewn pymtheg mis i'r cyfarfod cyffredinol blynyddol blaenorol, ag eithrio os yw sefyllfaoedd eithafol yn atal iddo gael ei gynnal, e.e. pandemig.

Bydd pob aelod yn cael gwybod drwy'r grŵp Facebook 'cyfrinachol' neu drwy e-bost o leiaf 3 wythnos cyn dyddiad y cyfarfod, gan nodi'r lleoliad, y dyddiad a'r amser.

Bydd y cyfarfod cyffredinol blynyddol yn agored i unrhyw aelod o Fasnachwyr Castell Newydd Emlyn

sy'n dymuno mynychu, a bydd aelodau yn gallu siarad a pleidleisio.

Caniateir i rai nad ydyn nhw'n aelodau fynychu'r CCB a gallant siarad. Fodd bynnag, fel aelod nad yw'n aelod nid oes ganddo hawl i bleidlais.

6.2.1 Agenda'r CCB

A typical AGM agenda will cover the following:

- Sylwadau agoriadol/Croeso
- Ymddiheuriadau
- Cofnodion y cyfarfod cyffredinol blynyddol blaenorol a materion yn codi o'r cofnodion
- Ethol swyddogion ac Aelodau o'r Pwyllgor (Etholiadau bob 2 flynedd)
- Cyflwyno cyfrifon
- Unrhyw fater arall
- Dyddiad y cyfarfod cyffredinol nesaf
- Dyddiad y cyfarfod cyffredinol blynyddol nesaf
- Sylwadau i gloi

Noder: bydd unrhyw gynigion ar agenda'r cyfarfod cyffredinol blynyddol a roddir i'r Ysgrifennydd o leiaf 7 niwrnod cyn y cyfarfodydd yn cael eu trafod.

6.3 Cyfarfodydd Pwyllgor

Rhaid i bresenoldeb cyfarfod pwyllgor fodloni'r gofynion cworwm a nodir yn Adran 6.1 uchod.

Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn.

Dim ond Aelodau Pwyllgor cyfredol y grŵp sy'n dymuno mynychu bydd yn y cyfarfodydd pwyllgor.

Gall Aelodau'r Pwyllgor sy'n mynychu siarad a chael pleidlais sengl mewn cyfarfod Pwyllgor.

Gall y Pwyllgor, trwy bleidlais fwyafrif o ddwy ran o dair, bleidleisio, ac am reswm da a phriodol, I ddiswyddo unrhyw Aelod o'r Pwyllgor, ar yr amod bod gan yr unigolyn hwnnw'r hawl i gael ei glywed cyn i benderfyniad terfynol gael ei wneud.

Gall y Pwyllgor benodi aelod cyfredol arall o'r grŵp yn Aelod o'r Pwyllgor i lenwi swydd wag ar yr amod na eir y tu hwnt i'r nifer uchaf.

Yn absenoldeb y Cadeirydd, yr is-gadeirydd a/neu'r Ysgrifennydd Aelodaeth o gyfarfodydd cyffredinol arbennig, bydd y grŵp yn penodi'r unigolion angenrheidiol o'r grŵp ar gyfer y cyfarfod hwnnw yn unig. Fodd bynnag, unwaith y bydd cofnodion y cyfarfod ffurfiol wedi'u hysgrifennu, rhaid danfon copïau i'r Cadeirydd a'r Ysgrifennydd Aelodaeth.

Mewn rhai achosion gall aelodau etholedig y pwyllgor wneud penderfyniadau, megis ychwanegu unigolyn at y cynllun SABB, newid enwadau talebau, ac ati. Fodd bynnag, dylid agor unrhyw benderfyniadau a allai effeithio ar yr holl aelodau cyfredol er mwyn darparu pob aelod cyfredol y cyfle i ddweud eu dweud, a lle bo angen, pleidleisio ar benderfyniadau.

6.4 Cyfarfodydd Cyffredinol

Rhaid i bresenoldeb cyfarfodydd cyffredinol fodloni'r gofynion cworwm a nodir yn adran 6.1 uchod.

Mae Cyfarfodydd Cyffredinol yn agored i'r holl aelodau cyffredol a byddant yn ôl yr angen trwy gydol y flwyddyn.

Gall aelodau presennol sy'n mynychu siarad a chael pleidlais sengl mewn Cyfarfod Cyffredinol. Yn gyffredinol, rhoddir pythefnos o rybudd i bob aelod cyffredol o gyfarfod o'r fath, gan roi'r lleoliad, y dyddiad, yr amser a'r agenda. e.e. Dros y ffôn, e-bost, post neu drwy'r dudalen Facebook 'gyfrinachol'. (Fodd bynnag, ar brydiau efallai y bydd angen cynnal cyfarfodydd ar fyr rybudd lle na fydd y rheol pythefnos yn berthnasol.)

Yn absenoldeb y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a / neu'r Ysgrifennydd Aelodaeth o gyfarfodydd cyffredinol, bydd y grŵp yn penodi'r unigolion angenrheidiol o'r grŵp ar gyfer y cyfarfod hwnnw yn unig. Fodd bynnag, unwaith y bydd cofnodion y cyfarfod ffurfiol wedi'u hysgrifennu, rhaid darparu copïau i'r Cadeirydd a'r Ysgrifennydd Aelodaeth.

6.5 Cyfarfodydd Cyffredinol Arbennig

Mewn cyfarfod cyffredinol arbennig mae'n rhaid i bresenoldeb fodloni'r gofynion cworwm a nodir yn adran 6.1 uchod.

Bydd yr Ysgrifennydd Aelodaeth yn galw Cyfarfod Cyffredinol Arbennig ar gais 10% o'r aelodaeth neu o leiaf 2 aelod etholedig o'r pwyllgor a 4 aelod cyffredol yn rhoi cais ysgrifenedig i'r Cadeirydd yn nodi'r rheswm dros eu cais.

Bydd y cyfarfod cyffredinol arbennig yn cael ei gynnal o fewn un diwrnod ar hugain i'r cais.

Bydd pob aelod yn cael pythefnos o rybudd o gyfarfod o'r fath, gan nodi'r lleoliad, y dyddiad, yr amser a'r agenda. e.e. dros y ffôn, e-bost, post neu drwy'r dudalen Facebook caeedig.

Gall aelodau presennol sy'n mynychu siarad a chael pleidlais sengl mewn Cyfarfod Cyffredinol Arbennig.

Yn absenoldeb y Cadeirydd, yr is-gadeirydd a/neu'r Ysgrifennydd Aelodaeth o gyfarfodydd cyffredinol arbennig, bydd y grŵp yn penodi'r unigolion angenrheidiol o'r grŵp ar gyfer y cyfarfod hwnnw yn unig. Fodd bynnag, unwaith y bydd cofnodion y cyfarfod ffurfiol wedi'u hysgrifennu, rhaid danfon copïau i'r Cadeirydd a'r Ysgrifennydd Aelodaeth.

6.6 Prosiect Penodol neu Weithgaredd penodol

Mae'n rhaid i gyfarfod penodol neu weithgaredd fodloni'r gofynion o ran cworwm a nodir yn adran 6.1 uchod.

O bryd i'w gilydd gall y grŵp enwebu unigolyn neu gall aelod hunan-enwebu i gynnal prosiect neu weithgaredd penodol. Yna, bydd y person hwn yn cyfethol aelodau'r grŵp neu unigolion y tu allan i'r grŵp i helpu gyda'r prosiect.

Bydd y grŵp prosiect neu weithgaredd penodol yn:

- Datblygu cynllun/prosiect.
- Gweithredu'r cynllun/prosiect.
- Adrodd yn ôl i'r Cadeirydd a'r is-gadeirydd yn rheolaidd ar y cynnydd.

Gall yr Aelodau sy'n mynychu siarad a phleidleisio mewn prosiect penodol neu gyfarfod gweithgareddau.

Yn absenoldeb y Cadeirydd, yr is-gadeirydd a/neu'r Ysgrifennydd Aelodaeth o gyfarfodydd cyffredinol arbennig, bydd y grŵp yn penodi'r unigolion angenrheidiol o'r grŵp ar gyfer y cyfarfod hwnnw yn unig. Fodd bynnag, unwaith y bydd cofnodion y cyfarfod ffurfiol wedi'u hysgrifennu, rhaid danfon copïau i'r Cadeirydd a'r Ysgrifennydd Aelodaeth.

6.7 Rheolau ar gyfer pob cyfarfod

Bydd pob cyfarfod yn dilyn agenda ffurfiol sy'n rhoi cyfle ar gyfer ' unrhyw fater arall ' cyn y sylwadau cloi.

Rhaid i bob aelod barchu a glynu at agenda'r cyfarfod.

Bydd yr holl gwestiynau sy'n codi mewn unrhyw gyfarfod yn cael eu trafod yn agored a bydd y cyfarfod yn ceisio dod o hyd i gytundeb cyffredinol.

Pleidleisio mewn cyfarfodydd:

- Gall unrhyw Aelod wneud cynnig
 - Er mwyn i Aelodau eraill bleidleisio ar y cynnig, rhaid iddo gael ei eilio.
 - Dim ond yr Aelodau sy'n bresennol yn y cyfarfod a all bleidleisio.
 - Caniateir i rai nad ydyn nhw'n aelodau fynychu'r CCB a gallant siarad. Fodd bynnag, fel aelod nad yw'n aelod nid oes ganddo hawl i bleidlais. (Eithriadau yw prosiect penodol neu Gyfarfod Gweithgaredd lle mae unigolion allanol yn cymryd rhan.)
 - Os oes gan fusnes fwy nag un cynrychiolydd mewn unrhyw gyfarfod, dim ond un pleidlais fydd ganddynt.
 - Cyn pleidleisio, caiff unrhyw Aelod gynnis gwelliant, ond mae'n rhaid eilio'r gwelliant. (Os bydd pleidlais ar y gwelliant yn gyfartal, caiff y Cadeirydd bleidlais fwrw ychwanegol ar gyfer y diwygiad arfaethedig.)
 - Bydd y pleidleisio trwy ddangos dwylo
 - Os na ellir dod i gonsensws (e.e. pleidlais gyfartal oherwydd eu bod yn ymatal):
 - Bydd gan Gadeirydd y cyfarfod bleidlais fwrw ychwanegol.
- neu
- Bydd pleidlais yn cael ei chymryd a bydd penderfyniad yn cael ei wneud gan fwyafrif syml o'r Aelodau sy'n bresennol.

7. Cyllid

Bydd cyfrif banc yn cael ei gadw ar ran Masnachwyr Castell Newydd Emlyn y mae'r swyddogion wedi cytuno arno.

Bydd o leiaf tri llofnodwr i'r cyfrif, fel bod dau ar gael bob amser i awdurdodi taliadau. e.e. Cadeirydd, Trysorydd a Ysgrifennydd Aelodaeth.

Bydd angen dau lofnodwr ar gyfer pob trafodyn.

Ni ddylai'r llofnodwyr fod yn gysylltiedig nac yn gyflogedig i'r un busnes.

Ni fydd unrhyw lofnodwr yn llofnodi siec wag. Rhaid llenwi pob siec cyn ychwanegu'r llofnodion. Ar gyfer taliadau siec, bydd y llofnodwyr yn llofnodi'r siec.

Ar gyfer taliadau eraill (fel taliadau BACS, tynnu arian parod, taliadau cerdyn debyd neu daliadau arian parod), caiff nodyn cais ei lofnodi gan ddau lofnodwr, a'i gadw gan y Trysorydd.

Bydd y Trysorydd yn cynnal cofnodion o'r incwm a'r gwariant a rhoddir datganiad ariannol ym mhob cyfarfod.

Bydd holl ohebiaeth ariannol Masnachwyr Castell Newydd Emlyn, gan gynnwys y gyfriflenni banc, yn cael eu cyfeirio at y Trysorydd.

Bydd datganiad blynyddol y cyfrifon yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod cyffredinol blynyddol.

Bydd yr holl wariant yn cael ei gytuno a'i reoli gan swyddogion Masnachwyr Castell Newydd Emlyn.

Bydd yr holl arian a godir gan neu ar ran Masnachwyr Castell Newydd Emlyn ond yn cael ei ddefnyddio i ehangu nod ac amcanion y cyfansoddiad hwn (adran 2).

8. Gwelliannau i'r Cyfansoddiad

Gellir gwneud diwygiadau i'r cyfansoddiad drwy benderfyniad a basiwyd gan fwyafrif y cworwm o Aelodau sy'n bresennol ac sydd â hawl i bleidleisio yn y CCB (adran 6.2), cyfarfod cyffredinol (adran 6.3) neu gyfarfod cyffredinol arbennig (adran 6.5). Noder: Os oes gan fusnes fwy nag un cynrychiolydd yn y cyfarfod, dim ond un bleidlais fydd ganddynt.

9. Diddymiad

Os bydd cyfarfod, drwy fwyafrif syml, yn penderfynu ei bod yn angenrheidiol cau'r grŵp, gelwir cyfarfod cyffredinol arbennig i wneud hynny. Unig ddiben y cyfarfod hwn fydd diddymu'r grŵp.

Os cytunir i ddiddymu'r grŵp, bydd gweddill yr arian ac asedau eraill, unwaith y talwyd dyledion sydd heb eu talu, yn cael eu rhoi i fudiad elusennol lleol. Cytunir ar y sefydliad yn y cyfarfod sy'n cytuno ar y diddymiad.

10. Trydydd Parti

Rhaid i unrhyw drydydd parti sy'n gweithredu ar ran neu ar y cyd â Masnachwyr Castell Newydd Emlyn gadw at y cyfansoddiad hwn.

Bydd copi o'r cyfansoddiad yn cael ei ddarparu i'r trydydd parti sy'n gweithredu ar ran neu ar y cyd â Masnachwyr Castell Newydd Emlyn.

11. GDPR

Mae Masnachwyr Castell Newydd Emlyn yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) 2018 ac yn defnyddio gwybodaeth er mwyn gwella cyfathrebu a gweithgareddau'r cylch.

Trwy ofyn am gael dod yn aelod o grŵp masnachwyr Castellnewydd Emlyn, rydych yn caniatáu i'ch manylion gael eu rhannu gydag aelodau eraill y grŵp, tynnu lluniau mewn digwyddiadau, ac ati.

Mae polisi preifatrwydd Masnachwyr Castell Newydd Emlyn ar gael i'w weld yn y cyfarfod cyffredinol blynyddol ac mae copïau ar gael ar gais ac ar gael ar wefan Visit Newcastle Emlyn.

12. Cymeradwyo'r Cyfansoddiad

Cafodd y cyfansoddiad hwn ei gytuno a'i fabwysiadu gan yr Aelodau oedd yn bresennol yng nghyfarfod cyffredinol blynyddol grŵp masnachwyr Castell Newydd Emlyn a gynhaliwyd ar 27^{ain} Gorffennaf 2021. Cytunwyd ar y gwelliant i'r cyfansoddiad (7 Hydref 2021) i gynnwys Aelodaeth Gysylltiol Heb Bleidleisio yn dilyn pleidlais gan aelodau cyfredol.

Wedi'i gymeradwyo gan	
Dyddiad	7 ^{eg} Hydref 2021
Enw wedi'i brintio	Nicky Davies
Swydd o fewn y grŵp	Cadeirydd
Llofnod	

Tystiwyd gan	
Dyddiad	7 ^{eg} Hydref 2021
Enw wedi'i brintio	Dave Thomas
Swydd o fewn y grŵp	Ysgrifennydd Aelodaeth
Llofnod	